COMMUNITY FUND
OUR BRIGHT FUTURE

# Our Bright Future:
# Papur Dysgu 4



## ENNYN DIDDORDEB POBL IFANC YN YR AMGYLCHEDD:

LLWYDDIANNAU, BETH OEDD YN GWEITHIO, GWERSI A DDYSGWYD

Collingwood Environmental Planning
ERS Research & Consultancy

**Partneriaeth uchelgeisiol ac arloesol dan arweiniad yr Ymddiriedolaethau Natur oedd Our Bright Future. Fe'i hariannwyd gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol – noddwr gweithgareddau cymunedol mwyaf y Deyrnas Unedig. Roedd rhaglen o 31 o brosiectau a gynhaliwyd rhwng 2016 a 2021, a oedd yn dod â'r sector amgylcheddol a'r sector ieuenctid at ei gilydd. Nod gyffredin y prosiectau, a oedd yn amrywio o brosiectau lleol i rai cenedlaethol, oedd grymuso pobl ifanc (rhwng 11 a 24 oed) i arwain newidiadau amgylcheddol yn y dyfodol.**

Dyma rai o weithgareddau'r prosiectau: cynnwys pobl ifanc mewn cadwraeth amgylcheddol ymarferol; ennyn eu diddordeb mewn hyfforddiant galwedigaethol a phrofiad gwaith; eu cefnogi i ddatblygu eu hymgyrchoedd gweithredu cymdeithasol eu hunain yng nghyswllt materion amgylcheddol; a'u helpu i gychwyn eu mentrau cynaliadwy eu hunain.

Mae'r dystiolaeth yn y papurau hyn wedi cael ei chasglu fel rhan o broses werthuso Our Bright Future. Lluniwyd y papurau gan ddau gwmni gwerthuso – Economic Research Service Ltd (ERS) a Collingwood Environmental Planning (CEP) – er mwyn gallu rhannu'r hyn a ddysgwyd drwy'r rhaglen a chael dylanwad ar ddarpariaeth yn y dyfodol.

## Cyflwyniad


Mae treulio amser yn yr amgylchedd naturiol yn gallu arwain at bob math o fanteision, sy'n cael sylw manylach yn y papurau dysgu ac yn adroddiad gwerthuso terfynol Our Bright Future. Mae'r papur dysgu hwn yn cyflwyno'r hyn y mae'r Rhaglen wedi'i ddysgu ynglŷn â sut i gynnwys pobl ifanc ac ennyn eu diddordeb mewn amgylcheddau naturiol; beth sy'n gweithio, i bwy, a pham. Pan fo modd, rhennir arferion da o ran ymgysylltu â phobl ifanc sy'n cael eu hystyried bellaf oddi wrth gymorth. Er nad oedd hyn yn nod benodol pan gynlluniwyd y Rhaglen, mae'r flaenoriaeth hon wedi datblygu ochr yn ochr â hi.



Daw'r canfyddiadau yn y papur hwn o dystiolaeth a gasglwyd drwy gydol y broses werthuso bum mlynedd annibynnol, yn bennaf gan y rheini fu'n rheoli, yn cyflwyno ac yn cymryd rhan yn Our Bright Future. Y gobaith yw y gellir defnyddio'r gwersi a ddysgwyd wrth wneud gwaith prosiect yn y dyfodol, yn enwedig o ran recriwtio unigolion a dal gafael arnynt.

## Proffil cyfranogwyr Our Bright Future


Mae 128,495 o bobl ifanc wedi bod yn rhan o'r Rhaglen, sy'n mynd y tu hwnt i'r targed gwreiddiol o 60,000 o bobl ifanc, ac yn rhagori ar y targedau ar gyfer cyfranogiad unwaith yn unig, tymor byr a thymor hir. Gan edrych y tu hwnt i'r niferoedd, roedd y Rhaglen yn annog prosiectau i gynnwys y bobl ifanc briodol yn y ffyrdd priodol.




Un flaenoriaeth a ddaeth i'r amlwg oedd cyrraedd pobl ifanc a oedd bellaf oddi wrth gymorth. Roedd gan y prosiectau unigol gylchoedd gwaith amrywiol yn hyn o beth. Roedd 11 o brosiectau (o 31) yn ceisio cynnwys pobl ifanc gydag anableddau a/neu anghenion addysgol arbennig (AAAA) a/neu iechyd meddwl gwael, ac roedd oddeutu eu hanner yn ceisio cynnwys pobl ifanc a oedd bellaf oddi wrth gymorth. Roedd prosiectau eraill yn recriwtio'n fwy eang ar draws y sbectrwm oed 11-24. Wrth ystyried prosiectau oedd yn cynnwys pobl ifanc a oedd bellaf oddi wrth gymorth, nid yw'r data'n awgrymu bod gwahaniaeth o ran bod yn gosteffeithiol neu gyflawni cynnydd yn erbyn targedau. Serch hynny, mae'n amlwg bod cynnwys pobl ifanc ag anghenion penodol yn gallu arwain at gostau uwch fesul unigolyn, oherwydd dwyster y cymorth sydd ei angen ac am faint o amser y mae angen y cymorth hwnnw.

Ar y cyfan, cydnabyddir nad oes un ateb sy'n addas i bawb ar gyfer recriwtio a chynnwys pobl ifanc ar draws y portffolio. Ers dechrau'r rhaglen, mae rheolwyr prosiect wedi gweithio'n galed i fireinio, arloesi a datblygu strategaethau i gysylltu eu 'cynnig' nhw gyda chyfranogwyr targed a sicrhau cynhwysiant ystyrlon.

## Demograffeg cymdeithasol cyfranogwyr Our Bright Future*




*Daw'r ffigurau hyn o adroddiadau blynyddol a gyflwynwyd gan reolwyr prosiect, ar y sail bod y cyfranogwyr wedi darparu'r manylion eu hunain.*

## Recriwtio pobl ifanc

Mae portffolio Our Bright Future yn amrywiol iawn. Nid oedd un ffordd gyffredin o recriwtio unigolion i gymryd rhan, nac un siwrnai ymgysylltu benodol. Ond roedd rhai gwersi cyffredin – a heriau cyffredin hefyd. Roedd rheolwyr prosiect yn dweud bod ennyn diddordeb pobl ifanc, yn enwedig y rheini a oedd bellaf oddi wrth gymorth, yn her yn ystod cyfnodau cynnar y Rhaglen. Ond wrth i amser fynd heibio llwyddodd y Prosiectau i addasu eu ffyrdd, a datblygu atebion aml-ddull a phwrpasol o ddysgu oedd yn gweithio iddyn nhw. Yn fwy diweddar yn 2020 a 2021, daeth heriau eraill yn sgil y pandemig, yn enwedig wrth i lwybrau cyfeirio presennol neu rai oedd wedi cael eu sefydlu ddod i ben oherwydd bod staff ar ffyrlo a gwasanaethau'n cau, er enghraifft.

### Dulliau recriwtio cyffredin ar draws portffolio Our Bright Future

- Cyfeirio e.e. drwy ysgolion, colegau, gwasanaethau ieuenctid
- Sesiynau blasu a digwyddiadau
- Porthorion' cymunedol
- Y Cyfryngau Cymdeithasol
- Anogaeth gan gyfoedion
- Lledaenu'r neges

- **Cyfeirio unigolion – beth oedd fwyaf cyffredin/effeithiol.** Ysgolion, colegau a phrifysgolion oedd wedi cyfeirio dwy ran o dair o'r bobl ifanc.
- Mae sesiynau blasu a/neu ddigwyddiadau wedi gweithio'n dda i sbarduno diddordeb.
- Mae'r cyfryngau cymdeithasol/hysbysebu uniongyrchol wedi gweithio mewn rhai achosion. I grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, roedd defnyddio porthorion cymunedol i greu cysylltiadau'n bwysig.
- Mae anogaeth gan gyfoedion/lledaenu'r neges wedi dod yn fwy cyffredin wrth i brosiectau ddatblygu.

## Enghreifftiau o beth sy'n gweithio'n dda wrth recriwtio pobl ifanc sydd bellaf oddi wrth gymorth

Fel y nodir yn yr Adroddiad Canol Tymor (https://www.ourbrightfuture.co.uk/wp-content/uploads/2019/08/Mid-Term-Evaluation-Final-Report.pdf) roedd rheolwyr prosiect yn canolbwyntio ar ddathlu cyfraniadau a llwyddiannau'r rheini oedd yn wynebu rhwystrau cymhleth. Mae'r grwpiau sydd wedi cael eu cynnwys wedi bod yn amrywiol iawn, gan gynnwys unigolion ar y sbectrwm awtistig, rhai gydag anghenion addysgol arbennig ac anabledd, ffoaduriaid o Syria, pobl ifanc ddigartref a mwy. Roedd rheolwyr prosiect yn cydnabod bod prosiectau'n ei chael yn fwy heriol cynnwys pobl ifanc oedd yn byw bywyd caotig. Mewn rhai achosion, roedd hyn oherwydd rhwystrau o ran logisteg neu ymarferoldeb. Er enghraifft, roedd grwpiau oedd yn wynebu rhwystrau rhag cymryd rhan yn cynnwys: y rheini nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant; y rheini mewn ardaloedd gwledig; y rheini gydag iechyd meddwl gwael; a'r rheini heb lawer o ddiddordeb yn yr amgylchedd.

**Dyma rai o'r gwersi a rannwyd gan reolwyr prosiect a staff wrth iddynt geisio cyrraedd y rheini a oedd bellaf oddi wrth gymorth:**

- **Y cynnig:** Mae pa mor hyblyg yw'r cynnig a pha mor eglur yw pwrpas y prosiect yn helpu i ennyn diddordeb pobl ifanc a rhanddeiliaid ehangach.
- **Defnyddio rhwydweithiau:** Mae cefnogaeth frwd darparwyr interniaethau a lleoliadau wedi gwneud hysbysebion yn fwy gweledol.
- **Gwaith recriwtio wedi'i dargedu:** Bu cyrff sy'n recriwtio fel Creative Access, sy'n arbenigo mewn cysylltu grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol â chyfleoedd, yn helpu un prosiect i ymgysylltu ag unigolion o amrywiaeth eang o gefndiroedd ethnig.
- **Hygyrchedd:** Mae prosesau ymgeisio a chofrestru syml/hyblyg yn hwyluso pethau e.e. opsiwn i gyflwyno ceisiadau sain neu fideo, bod yn glir nad oes angen unrhyw brofiad blaenorol, a'i gwneud yn hwylus i bobl ddefnyddio teclynnau symudol yn hytrach na bwrdd gwaith.
- **Cysylltiadau:** Mae partneriaethau neu eiriolwyr allanol effeithiol (e.e. gweithiwr ieuenctid, athro neu gorff cymunedol sefydledig) yn gallu helpu i sicrhau'r ymddiriedaeth a'r cyswllt cychwynnol hwnnw gyda phobl ifanc – maent hefyd yn gallu arwain at ffrwd gyson o gyfeiriadau os llwyddir i gadw'r cysylltiad hwn.
- **Hysbysebu:** Dylai gwaith marchnata a hysbysebu gael ei gynllunio'n dda a'i amseru'n briodol (h.y. nid yn ystod tymor arholiadau). O ran recriwtio cyffredinol.

"Rydyn ni'n dal i lwyddo i gael amrywiaeth eang o ymgeiswyr ar gyfer interniaethau (...) yn rhannol oherwydd ymgyrchoedd sydd wedi'u targedu ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol, ond hefyd drwy feithrin cysylltiadau cryf gyda mudiadau cymunedol ar lawr gwlad sy'n gallu rhannu ein cyfleoedd o fewn eu cymunedau." Rheolwr prosiect


## Beth sy’n cymell pobl ifanc i gymryd rhan

Ochr yn ochr â deall ystyriaethau ymarferol ar gyfer ymgysylltu, mae’r sylwadau a gasglwyd drwy Astudiaeth Thematig o Sgiliau Our Bright Future ( https://ourbrightfuture.co.uk/wp-content/uploads/2021/06/Our-Bright-Future-Skills-Study-Report-220421-Final.pdf ) a’r Astudiaeth Effaith Cyfranogwyr, yn rhoi syniad pa fath o bethau sy'n cymell pobl ifanc i gymryd rhan ( https://ourbrightfuture.co.uk/wp-content/uploads/2021/06/Our-Bright-Future-Impacts-for-Participants-Study-Final.pdf ) iyn Our Bright Future, gan ddangos bod pob math o bethau'n denu pobl ifanc at y Rhaglen.

**Dysgu allweddol:** Dydy defnyddio cynnig amgylcheddol i ennyn diddordeb pobl ifanc yn yr amgylchedd ddim yn angenrheidiol bob tro/ddim bob amser y ffordd fwyaf effeithiol o fynd o’i chwmpas hi. Mewn gwirionedd, weithiau gall cyflwyno hyn yn rhy fuan gael effaith negyddol os nad yw’n cyd-fynd ag anghenion y person ifanc. Yn aml iawn, bydd ffactor arall yn cymell y person ifanc. Felly, gellir defnyddio’r ffactor hwn fel ffocws ar y dechrau cyn cyflwyno’r elfennau amgylcheddol yn nes ymlaen, neu’u sefydlu'n rhan o’r cynnig cyffredinol, heb i’r person ifanc sylwi bron.

Deallir bod amrywiaeth o ffactorau wedi cymell y bobl ifanc sydd wedi cymryd rhan yn y Rhaglen. Roedd yr Astudiaeth Thematig o Sgiliau yn tynnu sylw at amryw o ffactorau a oedd wedi eu cymell, gan gynnwys: sgiliau a chyflogadwyedd; yr elfen gymdeithasol (oedd yn allweddol i bobl ifanc ag anghenion cymhleth yn arbennig); a chyfle i ‘fynd allan mwy’ a/neu i wneud rhywbeth ymarferol. Nid oedd ffactorau cymell ‘amgylcheddol’ yn benodol yn cael eu henwi mor aml.

### Beth sy'n cymell pobl ifanc i gymryd rhan mewn darpariaeth sgiliau amgylcheddol/awyr agored




Yn ogystal â ffactorau cymell cadarnhaol, mae'n amlwg, mewn rhai achosion, fod angen mynd ati i gael gwared ar rwystrau er mwyn galluogi pobl ifanc i gymryd rhan. Roedd y rhwystrau a oedd yn debygol o gau pobl ifanc allan o’r cychwyn yn cynnwys: rhwystrau logisteg/cludiant; rhwystrau ariannol; meini prawf mynediad llym; a/neu ddiffyg offer awyr agored/ bwyd.

Gyda’i gilydd, roedd cynigion rhai prosiectau'n apelio mwy at grwpiau penodol o bobl ifanc.

**Bydd pobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig** yn aml yn ddihyder wrth ymuno â phrosiectau, o’u cymharu â’u cyfoedion. Gwelwyd pa mor effeithiol oedd cynigion a oedd yn rhoi cymorth dwys i fagu hyder a rhoi ymdeimlad o gyflawni rhywbeth, heb yr angen i boeni am rwystrau ariannol (e.e. lleoedd hyfforddiant â thâl, darparu costau teithio a chynhaliaeth). Mewn llawer o achosion, roedd y cymhelliant ariannol yn ffactor allweddol wrth i berson ifanc benderfynu a allai gymryd rhan/a oedd am dderbyn y cynnig.

Roedd darpariaeth oedd yn rhoi pwyslais ar weithgareddau a sgiliau ymarferol yn arbennig yn apelio at lawer o **gyfranogwyr gydag anghenion AAAA.** Nodwyd y dylai ffactorau eraill fod yn eu lle i sicrhau bod y bobl ifanc yn parhau i gymryd rhan, fel awyrgylch gefnogol a chymhareb uchel ar gyfer staff a chyfranogwyr hefyd. Mae’n ymddangos fod elfen gymdeithasol gweithio yn yr awyr agored yn ffactor cadarnhaol wrth sicrhau canlyniadau.

**Yn gyffredinol, roedd pobl ifanc oed ysgol gydag anghenion cymhleth a/neu heriau ymddygiadol** yn cael budd o ddarpariaeth fwy hyblyg a phenagored. Roedd rheolwyr prosiect yn pwysleisio, er enghraifft, pa mor bwysig oedd lleoliad gwahanol i’r ysgol/cartref, yn ogystal â’r angen am ddewis, magu hyder a datblygu sgiliau ymarferol a/neu sgiliau meddal.

**Roedd pobl ifanc oed gwaith** i bob golwg yn fwy tebygol o gael eu cymell gan raglen â strwythur iddi, ac achrediad ynghlwm wrthi. Roedd hyn yn gysylltiedig â’r rhwystrau y gwyddom sy'n atal pobl ifanc rhag mynd i mewn i’r sector amgylcheddol a sicrhau cyfleoedd lefel mynediad. Roedd myfyrwyr prifysgolion fel arfer yn cael eu cymell gan awydd i gael profiad gwaith a gwella cyflogadwyedd.

## Cynnwys pobl ifanc a'u hannog i aros yn y tymor hwy

Mae'r dudalen hon yn amlygu arferion da wrth gynnwys pobl ifanc yn y tymor hwy. Drwyddi draw, y brif neges yw, yn gyntaf oll, y dylai'r ddarpariaeth gael ei harwain gan anghenion a blaenoriaethau pobl ifanc, ac yn ail, fod hyblygrwydd y portffolio i ddarparu cynigion amrywiol a phwrpasol wedi bod yn ffactor hollbwysig wrth ddal gafael ar bobl ifanc.

Mae tystiolaeth yn dangos y teimlwyd yr her o geisio dal gafael ar bobl ifanc ym mhob chwarter o'r Rhaglen i ryw raddau. Er i ffyrdd o weithio barhau i gael eu datblygu, roedd y rhwystrau cyson a oedd yn atal prosiectau rhag dal gafael ar bobl ifanc yn cynnwys pethau fel amseriad y gweithgareddau, gyda lefelau presenoldeb is yn ystod gwyliau'r haf neu pan oedd y tywydd yn anffafriol. Roedd rhwystrau eraill yn hyn o beth yn cynnwys diffyg diddordeb yng ngweithgareddau ac amcanion y prosiect, pwysau arholiadau, ac ymrwymiadau'n cystadlu yn erbyn ei gilydd (yn amrywio o fywydau cymdeithasol i waith neu gyfrifoldebau gofalu), yn enwedig yn y grŵp oed hŷn, sef pobl ifanc rhwng 17 a 24 oed.

Ar ben hyn, mae diffyg cefnogaeth, problemau iechyd meddwl a ffactorau ataliol o'r cartref hefyd wedi achosi i brosiectau golli cyfranogwyr. Mewn achosion prin, gwelwyd pobl ifanc yn methu gorffen oherwydd bod eu hymddygiad heriol yn rhoi eu hunain neu rywun arall mewn perygl. Nodwyd hefyd y gallai pobl ifanc roi'r gorau iddi am resymau cadarnhaol, er enghraifft gan eu bod wedi cael gwaith neu'n mynd i fyd addysg. Yn fwy diweddar, yn 2020 a 2021, roedd pandemig COVID-19 yn ffactor cyffredin a gafodd effaith ar allu prosiectau i ddal eu gafael ar bobl ifanc.



### Diwallu anghenion sylfaenol
Mae hyn yn cynnwys dillad cynnes, bwyd a byrbrydau, cludiant ac arian bws, nad yw pobl ifanc yn gallu cael gafael arnynt o rywle arall bob amser.

### Cadw momentwm
Cyfleoedd i gymryd rhan yn fuan iawn ar ôl dangos diddordeb. Mae cysondeb sesiynau'n bwysig, yn ogystal â chadw diddordeb yn ystod "toriadau". Gweithredu ar awgrymiadau'n syth a chau dolenni adborth.

### Cyfleoedd i ddatblygu a symud ymlaen
Cynnig cyfleoedd estynedig neu gyfleoedd i ddal ati i'r rheini sy'n cymryd rhan yn y tymor hir, rhag iddynt gyrraedd pwynt segur ar ôl cyfnod o weithgarwch neu gynnydd. Mae hyn yn aml wedi golygu creu swyddogaethau mentora cyfoedion, swyddi, gwobrau ychwanegol neu aelodaeth o fforwm.

### Cymorth dwys
Er bod gweithgareddau grŵp yn fanteisiol, y ffordd orau o sicrhau canlyniadau i'r rheini heb lawer o hyder neu anghenion cymhleth yw cymorth un i un wyneb yn wyneb, a chymhareb uchel ar gyfer staff a chyfranogwyr.

### Cyfoedion yn cefnogi ei gilydd
Bydd pobl ifanc wedi cael cyfle i wneud ffrindiau a chwrdd â phobl ifanc o'r un anian â nhw, felly gallant gefnogi ei gilydd a dysgu oddi wrth ei gilydd. Mae grwpiau fel hyn yn fuddiol i'r rheini sy'n wynebu problemau tebyg, e.e. camddefnyddio alcohol neu sylweddau.

### Staff medrus a phrofiadol
Roedd gofyn bod gan staff y prosiectau amrywiaeth eang o sgiliau a phrofiadau, yn amrywio o sgiliau gwaith ieuenctid a sgiliau amgylcheddol i sgiliau gweithio gydag ymddygiad heriol, ac yn ystod y pandemig, sgiliau digidol.

### Cyfathrebu cyson
Mae cyfathrebu rheolaidd, personol (wedi'i deilwra) a chyson wedi bod yn bwysig i wneud i bobl ifanc deimlo'u bod yn cael eu cefnogi a'u clywed, gan roi cyfle i godi unrhyw heriau, ac i addasu'r ddarpariaeth yn ôl yr angen.

### Ffiniau a disgwyliadau
Er bod natur yn gallu rhoi ymdeimlad o "ryddid", roedd rhai pobl ifanc yn elwa o ddisgwyliadau a thargedau clir, yn ogystal â ffiniau clir. Roedd ffiniau'n arbennig o bwysig wrth weithio yn yr awyr agored gyda'r rheini oedd yn ymddwyn yn heriol, er mwyn gwneud yn siŵr bod pawb yn saff.

### Perthynas ac ymddiriedaeth
Gall perthynas gadarnhaol a chefnogol rhwng aelod o staff sy'n gweithio yn y prosiect ac unigolyn sy'n cymryd rhan helpu i annog yr unigolyn i aros yn y prosiect. Mae hyn yn amlwg iawn pan mae lefelau trosiant staff yn isel, gan fod cyfle i feithrin ymddiriedaeth.

### Hyblygrwydd ynteu strwythur?
Un ffactor allweddol ar gyfer llwyddiant yw gallu'r portffolio i ddarparu cynigion amrywiol ac i deilwra darpariaeth ar gyfer anghenion pobl ifanc a'r hyn y maen nhw'n ei hoffi. O fewn hynny, mae rhai pobl ifanc yn elwa o strwythur clir a phwynt gorffen penodol, ond mae darpariaeth fwy penagored yn gweddu'n well i bobl ifanc eraill.

## Beth oedd yn gweithio, i bwy, a pham?

Un thema oedd yn codi dro ar ôl tro oedd yr angen i fod yn hyblyg wrth ymgysylltu â phobl ifanc, ac i ymateb yn rhagweithiol i amrywiaeth o anghenion neu ddiddordebau. Mae'n hollbwysig bod yn hyblyg o ran newid hyd a fformat darpariaeth fel ei bod yn gweddu i'r bobl ifanc sydd bellaf oddi wrth gymorth, gan roi cyfle iddynt gael digon o amser a chefnogaeth i gyflawni canlyniadau. Yn aml iawn, byddai'r rheini ag anghenion cymhleth neu'r rheini sy'n wynebu rhwystrau yn cymryd mwy o amser i gyflawni canlyniadau, ond mewn rhai achosion, byddai'r pellter a deithiwyd yn y pen draw yn fwy, yn enwedig o ran hyder.

Er bod pob person ifanc yn unigolyn, mae yna ambell wers gyffredin o ran beth sydd wedi gweithio'n dda, a ddim cystal, wrth gynnwys pobl ifanc gydag amrywiaeth o nodweddion ac amgylchiadau gwahanol. Mae rhai enghreifftiau i'w gweld yn y tabl isod a dros y dudalen. Teimlwyd llwyddiant yn benodol pan oedd prosiectau wedi rhoi amser i ddeall anghenion a diddordebau pobl ifanc, a beth oedd yn eu cymell, gan adael i'r pethau hyn lywio siâp a fformat y ddarpariaeth.

| Nodweddion pobl ifanc | Enghreifftiau o "beth sy'n gweithio"/ffyrdd o ennyn diddordeb |
|---|---|
| Dim diddordeb blaenorol yn yr amgylchedd | • Drwy ystyried yr holl bethau sy'n cymell pobl ifanc i gymryd rhan yn y ddarpariaeth (sgiliau, yr elfen gymdeithasol, gwneud gwahaniaeth, cyflogadwyedd, lles meddyliol ac ati) gall prosiectau greu cynnig diddorol i bobl ifanc.<br>• Deall bod modd cynnwys themâu amgylcheddol mewn meysydd sydd i bob golwg yn hollol wahanol, e.e. gall defnyddio cynaliadwyedd mewn gwes Gymraeg, neu ddysgu Saesneg fel Iaith Ychwanegol yn yr awyr agored, ennyn mwy o ddiddordeb yn y pwnc. |
| Pobl ifanc o ardaloedd o amddifadedd | • Mae bodloni anghenion sylfaenol, fel yr angen am gynhesrwydd, bwyd a lloches, yn helpu pobl ifanc i deimlo'n gyfforddus yn yr awyr agored ac yn eu hannog i gael perthynas well â'r amgylchedd naturiol ac i'w gwerthfawrogi.<br>• Mae cael gwared ar rwystrau ariannol neu rwystrau eraill a all atal pobl ifanc rhag cymryd rhan (amser, cyfnod ac ati) yn galluogi pobl ifanc i gymryd rhan mewn prosiect. |
| Pobl ifanc gydag iechyd meddwl gwael e.e. gorbryder ac iselder | • Darparu cymorth cyson ar sail un i un neu mewn grwpiau bach, yn ogystal â chydnabod bod rhwystrau'n unigryw i'r unigolyn, ac y dylai cymorth fod yn addas i'r unigolyn oherwydd hynny.<br>• Creu amgylchedd cefnogol a diogel, gan alluogi'r rheini sy'n cymryd rhan i ddatblygu a gwneud cynnydd wrth eu pwysau.<br>• Gall gwaith grŵp a chymorth gan gyfoedion ddatblygu hyder a darparu rhwydweithiau cefnogi gwerthfawr tu hwnt.<br>• Mae 'canlyniadau cyflym' (e.e. tasgau ymarferol yn yr awyr agored gyda chanlyniadau gweledol) yn galluogi unigolion heb lawer o feddwl ohonyn nhw eu hunain i godi eu hyder, teimlo eu bod wedi cyflawni rhywbeth, ac ennill sgiliau.<br>• Gall defnyddio'r amgylchedd naturiol arwain at bob math o fanteision o ran iechyd meddwl a lles i bobl ifanc, gan arwain at well cyfranogiad. |
| Pobl ifanc sy'n ymddwyn yn heriol | • Mae cynnal asesiadau risg trylwyr, cael staff sy'n fedrus iawn yn eu gwaith, darparu gweithgareddau â strwythur iddynt a gosod ffiniau clir gyda phobl ifanc yn hybu ymddygiad cadarnhaol.<br>• Gall gwaith ymarferol yn yr awyr agored fod yn ollyngfa ddiogel i ymddygiad sy'n gallu peri 'risg', yn enwedig dynion sy'n gyn-droseddwyr, e.e. hyfforddiant ar ddefnyddio cyllyll yn ddiogel, neu ddysgu sgiliau byw yn y gwyllt/cynnau tân.<br>• Mae datblygu perthynas gadarnhaol a chael un pwynt cyswllt drwy gydol yr amser yn helpu i gadw diddordeb pobl ifanc.<br>• Gall sesiynau blasu fod yn ffordd fuddiol o gyflwyno gweithgareddau newydd. |

> "Yn aml iawn, mae staff ysgolion yn gweld hyn (rhyddid mewn natur) yn heriol ac yn teimlo y dylai'r cyfranogwyr fod yn gwneud gweithgaredd strwythuredig yn hytrach na chwarae'n rhydd a chael blas ar y byd o'u cwmpas. Yn y chwarter gwlyb a mwdlyd hwn, rydym wedi gweld nifer o fechgyn yn eu harddegau yn rhoi'r gorau i fod yn haerllug ac yn ddigywilydd ac yn ymgolli mewn chwarae rhydd dychmygol. Wedi dweud hyn, mae angen gosod ffiniau clir er mwyn i hyn allu digwydd yn ddiogel."
>
> **RHEOLWR PROSIECT**

| Nodweddion pobl ifanc | Enghreifftiau o “beth sy'n gweithio”/ffyrdd o ennyn diddordeb |
|---|---|
| Pobl ifanc mewn ardaloedd gwledig, ac i’r gwrthwyneb, pobl ifanc mewn ardaloedd trefol | • Mae darparu cludiant neu ddewis lleoliadau sydd â chysylltiadau trafnidiaeth da yn ei gwneud yn fwy tebygol y bydd pobl ifanc yn gallu dod i gymryd rhan.<br>• Gall ymgysylltu’n ddigidol, yn ogystal â mynd ati i ddatblygu rhwydweithiau, ymestyn cyrhaeddiad at wahanol leoliadau daearyddol (a chaniatáu i bobl ifanc ryngweithio â’u cyfoedion mewn ardaloedd gwahanol a datblygu eu rhwydweithiau eu hunain).<br>• Efallai nad yw pobl ifanc mewn amgylcheddau trefol wedi ymwneud rhyw lawer â natur o’r blaen. Gall sesiynau blasu, presenoldeb oedolion cyfarwydd y gellir ymddiried ynddynt, yn ogystal â briffiadau trylwyr, arwain at brofiadau cychwynnol mwy cadarnhaol yn yr awyr agored. |
| Pobl ifanc 18 oed a hŷn | • Mae cynnig cyfleoedd i ddatblygu sgiliau a/neu gael profiad gwaith neu gymwysterau yn ffordd dda o ennyn diddordeb pobl ifanc 18 oed a hŷn.<br>• Mae cynnig cyfleodd datblygu yn gallu gwella canlyniadau, er enghraifft, rôl fel mentor cyfoedion.<br>• Gall mynd i’r afael ag agweddau negyddol y gymuned tuag at bobl ifanc yn y braced oed hwn (e.e. drwy hyfforddiant cymunedol) ymestyn y cyfleoedd a’r rhwydweithiau sydd ar gael iddynt. |
| Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant | • Mae darparu lleoliadau lefel mynediad a rhai gyda thâl yn y sector amgylcheddol yn helpu pobl ifanc i gymryd rhan.<br>• Mae cydnabod y rhwystrau cymhleth a allai atal unigolyn rhag symud ymlaen i hyfforddiant, addysg neu waith, a chael staff sy'n meddu ar y sgiliau priodol i gynnig cymorth ystyrlon, yn hanfodol ar gyfer pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.<br>• Gall ymgyrchoedd sy'n mynd ati'n benodol i dargedu unigolion nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, fod yn fuddiol wrth recriwtio. Er enghraifft, rhannu taflenni mewn canolfannau gwaith lleol a chanolfannau cymunedol, a hysbysebu ar Facebook.<br>• Gall addasu prosesau recriwtio er mwyn croesawu’r rheini sydd heb brofiad ffurfiol ei gwneud yn haws i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant gymryd rhan. Mae’n werth i brosiectau hefyd ystyried fformatau ymgeisio hyblyg (sain, fideo) a chwestiynau amgen ar gyfer cyfweliadau. |
| Cymunedau a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol | • Mae teilwra gweithgareddau i gyd-fynd ag anghenion unigryw y cyfranogwyr, yr hyn sy'n eu cymell a’u cefndiroedd, yn ogystal â cheisio deall y nodweddion unigryw hyn ymlaen llaw, yn helpu cyfranogiad. Mae modd cael gwybodaeth ymlaen llaw gan rieni/gofalwyr/staff ysgol neu drwy gael sgyrsiau uniongyrchol â phobl ifanc.<br>• Mae cyswllt personol yn helpu i gynnwys cymunedau nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu proses dymor hwy, ac ymrwymiad gwirioneddol i ddatblygu ymddiriedaeth gyda chymunedau.<br>• Gellir dweud bod rhoi cyfle i gyfoedion annog ei gilydd i gymryd rhan yn hwb i recriwtio cohortau mwy amrywiol. Gall pobl ifanc fod yn asedau gwerthfawr i ledaenu'r gair drwy eu cymunedau eu hunain.<br>• Gall gwneud yn siŵr bod diwylliannau gweithio a phrosesau recriwtio o fewn y prosiectau eu hunain yn gynhwysol helpu i ennyn diddordeb cohort mwy amrywiol o gyfranogwyr, gan gynnwys y rheini nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol yn y sector amgylcheddol. Ar brydiau, mae’n ddealladwy bod mudiadau lle mae’r mwyafrif o’r staff yn Wyn wedi ei chael yn anodd ennyn ymddiriedaeth pobl nad er mwyn rhoi’r argraff eu bod yn deg ac yn ceisio cynnwys pawb y maent yn ymwneud â chymunedau amrywiol o ran hil. |
| Pobl ifanc gyda nodweddion neu anghenion AAAA | • Mae bod yn hyblyg a theilwra’r ddarpariaeth – gan gynnwys fformat, hyd, lleoliad ac ati – ar gyfer yr unigolyn yn arbennig o bwysig er mwyn cynnwys pobl ifanc gyda nodweddion neu anghenion AAAA.<br>• Mae staff arbenigol a staff sydd wedi’u hyfforddi'n briodol, yn ogystal â pherthynas fentora, wedi galluogi unigolion ag anghenion AAAA i gael gwell canlyniadau.<br>• Mae gweithgareddau awyr agored ymarferol, fel defnyddio tŵls a garddwriaeth, yn llwyddiannus iawn wrth ennyn diddordeb unigolion ag anghenion AAAA.<br>• Mae swyddogaethau wedi’u diffinio'n glir rhwng staff prosiect a staff cymorth allanol yn sicrhau diogelwch. |
| Pobl ifanc sy'n dwyn budd o ddarpariaeth addysgol amgen | • Gweithgareddau anffurfiol yn yr awyr agored (h.y. sy'n wahanol i’r hyn a geir yn yr ystafell ddosbarth draddodiadol a/neu mewn cartrefi problemus) sy'n gweithio orau i ennyn diddordeb y cohort hwn o bobl ifanc.<br>• Gall gweithgareddau awyr agored ymarferol gyda chanlyniadau cyflym a gweledol roi hwb i hyder.<br>• Mae byd natur yn llesol, a gall helpu pobl ifanc i ymlacio ac anghofio am eu problemau. Bydd hyn yn annog cyfranogiad ac yn sbarduno canlyniadau cadarnhaol.<br>• Mae gweithio'n agos gydag asiantaethau a staff cymorth allanol yn bwysig er mwyn: cyflwyno’r ddarpariaeth o amgylch gofynion y cwricwlwm, rheoli ymddygiad yn esmwyth gydag atebolrwyddau clir, a mynd ati'n effeithiol i gefnogi'r rheini sy'n byw bywyd caotig. |

> "Dydy ceisio creu cysylltiad â´r awyr agored a ninnau y tu mewn ddim wedi bod yn hawdd ac roedd angen meddwl yn greadigol."
>
> **RHEOLWR PROSIECT**

## Ymgysylltu yn ystod COVID-19 a llwybrau ymgysylltu digidol

Yn 2020 a 2021, arweiniodd pandemig COVID-19 at bob math o heriau i brosiectau, gan gynnwys staff ar ffyrlo, toriadau mewn gweithgareddau, cadw pellter cymdeithasol, cau ysgolion a safleoedd a thlodi digidol/data. Ar ben hyn, daeth gweithgareddau a chysylltiadau cyfeirio allweddol gydag ysgolion i stop. Effeithiodd hyn ar lefelau recriwtio a dal gafael ar bobl ifanc. Cyn y pandemig, roedd y rhan fwyaf o brosiectau'n cynnig gweithgareddau awyr agored, wyneb yn wyneb, ond bu'n rhaid iddynt ddechrau gweithio ar-lein yn gyflym iawn. Roedd hyn yn golygu gwella sgiliau staff, ail-lunio gweithdrefnau diogelu a pholisïau ac ailedrych ar ffyrdd o ennyn diddordeb pobl ifanc yn yr awyr agored, tra bod pawb y tu mewn.  I ymateb i hyn, creodd y prosiectau adnoddau newydd sbon i'w rhannu ag ysgolion, gan ail-lunio cynlluniau hyfforddi a llawer iawn mwy. Gwelodd rheolwyr prosiect hefyd faint o heriau aciwt oedd yn wynebu pobl ifanc yn sgil y pandemig, a rhoddwyd pwyslais ar y manteision o ran lles ac iechyd meddwl y gallai natur ei gynnig i'w cohortau. Mae prosiectau wedi gweithio'n galed i ddal gafael ar bobl ifanc, ac i ennyn eu diddordeb unwaith eto, mewn amgylchiadau anodd iawn.

Ar un llaw, mae allgymorth digidol wedi bod yn rhywbeth positif i rai prosiectau, gydag amryw wedi dod o hyd i gynulleidfaoedd newydd ac ymgysylltu â nhw – yn enwedig mewn ardaloedd gwledig – gan nad yw daearyddiaeth yn gymaint o gyfyngiad erbyn hyn. Mewn rhai achosion, mae hyn wedi gweithio mor dda i ddod ag amrywiaeth o bobl ifanc at ei gilydd o amgylch targedau prosiectau, bydd yn parhau yn y dyfodol, gan ddefnyddio dulliau cyfunol o bosib. Ar y llaw arall, mae'r pandemig wedi atgyfnerthu pa mor werthfawr yw ymgysylltu wyneb yn wyneb, gydag unigolion eraill a gyda byd natur, i alluogi pobl ifanc i gyflawni canlyniadau. Rhaid dweud nad oedd ymgysylltu digidol yn addas i bawb. Y grwpiau hynny oedd y rhai a oedd fwyaf tebygol o gael eu taro waethaf gan effaith y pandemig ei hun hefyd.

O'u cymharu â ffigurau 2019, mae'r ffigurau ymgysylltu ar gyfer 2020 yn dangos gostyngiad o 37% yng nghanran y cyfranogwyr oedd yn byw yn yr 20% o ardaloedd oedd yn wynebu'r amddifadedd mwyaf.  Ar ben hyn, bu gostyngiad yn nifer y cyfranogwyr o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol a'r cyfranogwyr anabl. Wrth edrych ar gyfranogwyr anabl, roedd hyn yn rhannol oherwydd bod rhaglenni preswyl Vision England ar gyfer pobl ifanc â nam ar eu golwg wedi dod i stop. Soniodd rheolwyr prosiect am resymau eraill dros y gostyngiad hwn hefyd. Mae'n bwysig nodi nad oedd gan rai cyfranogwyr fynediad at y dechnoleg/dulliau cysylltu i ymgysylltu ar-lein. Roedd hi'n anodd hefyd ymgysylltu ag unigolion mewn ardaloedd dan anfantais gan nad oedd trafnidiaeth gyhoeddus ddiogel ar gael. Yn ogystal â hyn, roedd cyfranogwyr difreintiedig lle'r oedd amgylchedd y cartref yn gymhleth a/neu lle nad oedd eu hiechyd meddwl yn dda iawn, yn ei chael hi'n anoddach ymgysylltu, ac roedd y pandemig yn aml iawn yn gwneud y rhwystrau'n fwy.

**Roedd heriau eraill yn cynnwys;** pwysau amser ar athrawon, a oedd yn golygu nad oedd modd i bobl ifanc fanteisio ar weithgareddau allgyrsiol; pobl ifanc yn 'blino ar zoom'; a llai o gyfleoedd i gyfathrebu â phobl ifanc.  Yn ôl y sôn, achosodd y pandemig 'fwlch cyfathrebu', ac effeithio ar y gallu i feithrin ymddiriedaeth a pherthynas rhwng staff, ynghyd â chyfleoedd i gyfoedion ddod i adnabod ei gilydd a meithrin cyfeillgarwch. Cafodd effaith ar gymhelliant hefyd, a gwneud heriau'n fwy.

**Llwyddiannau a llwybrau tuag at leihau / mynd i'r afael â rhwystrau rhag ymgysylltu:** mae prosiectau wedi defnyddio cyllidebau nad ydynt wedi cael eu gwario i brynu offer a/neu ddata i bobl ifanc; hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol; galwadau ffôn un i un i gefnogi cyfranogwyr; cyfyngu ar hyd sesiynau; cynnig gweithgareddau amrywiol fel cwis, sesiynau grŵp ac ati; gweithgareddau i annog unigolion i dreulio amser ar eu pen eu hunain ym myd natur, a sesiynau blasu ar-lein.  Mae rhai cyfarfodydd wedi cael eu cynnal yn fwy rheolaidd nag arfer, gyda chynnydd yn y niferoedd hefyd.




> "Nid yw gweithio o gartref wedi bod yn bosib i rai gan fod gormod o bobl ar yr aelwyd, (a) heriau'n ymwneud ag aelodau'r teulu... mae rhai wedi wynebu mwy o heriau iechyd meddwl, a chollodd un person ifanc ddau aelod o'i deulu i Covid-19, oedd wir yn drychinebus. Er ein bod wedi ceisio aros yn bositif yn ystod y cyfnod anodd hwn, mae gwybodaeth fel hon yn dorcalonnus ac yn anodd iawn i gymhellwyr ddelio â hi."
>
> **CYFRANOGWR**

> "Rhowch gynnig ar rywbeth a gweld a yw'n gweithio. Dydy gwneud dim byd ddim yn opsiwn a ninnau'n gwybod bod cymaint o bobl ifanc yn cael trafferth ymdopi ar hyn o bryd. Mae gan brosiectau Our Bright Future, yn genedlaethol ac yn rhanbarthol, rôl bwysig iawn i'w chwarae dros y 6 mis nesaf i helpu pobl ifanc i fynd yn ôl i'r awyr agored. Mae'n amser hollbwysig hefyd i gynnwys pobl ifanc yn y gwaith o ail-ddylunio'r gwasanaeth."
>
> **RHEOLWR PROSIECT**